Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llansteffan

**Llansteffan**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA33 5LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o dreialon trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Llansteffan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llansteffan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 27 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 6.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 44.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categorïau A-C) | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 19/02/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/06/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llansteffan yn gymuned ddysgu hapus a chroesawgar sy'n gosod sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Mae disgyblion yn ofalgar ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch teuluol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cyd-chwarae'n hapus. Maent yn gwrando'n briodol ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r Gymraeg, er nad yw eu medrau llafar wedi datblygu'n llawn.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi adnabod cryfderau'r ffederasiwn ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, drwy hyfforddi a chefnogi'r penaethiaid cynorthwyol i weithredu'n fwy strategol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n dda ac yn hybu diwylliant o rannu ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol ymhlith staff er mwyn gwella profiadau a medrau'r disgyblion.

Mae perthynas agos a chynhaliol rhwng disgyblion a staff yr ysgol. Mae staff yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau diddorol ac yn holi disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n dda wrth ddatblygu eu medrau'n briodol. Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus yn yr ardal leol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu. Yn ogystal, ar draws yr ysgol, nid yw staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon bwriadus.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ffederasiwn a'i feysydd i'w gwella. Maent yn gefnogol i'r disgyblion, y staff a'r gymuned leol, ac yn weithredol wrth ymdrechu i leihau effaith tlodi ar y profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae gan arweinwyr y ffederasiwn weledigaeth glir sy’n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol ac i fod yn ‘ffrindiau ffederasiwn yn tyfu’r dyfodol’.

Mewn cyfnod byr, mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ffederasiwn ac mae wedi dechrau gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella. Er enghraifft, drwy sicrhau datblygiad proffesiynol bwriadus i’r penaethiaid cynorthwyol i’w harfogi i weithredu’n fwy strategol ac i gymryd rhan flaenllaw yn y prosesau hunanwella. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a’r staff.

Ar draws y ffederasiwn, mae’r penaethiaid cynorthwyol yn cydweithio’n bwrpasol ac yn ymroi’n  llwyr i’r gwerthoedd cytûn. Dros gyfnod o ansefydlogrwydd diweddar, maent wedi hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng holl aelodau’r staff. O ganlyniad, mae staff yn awyddus i ddatblygu’r ddarpariaeth i wella profiadau, medrau a chynnydd disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu ardaloedd dysgu buddiol ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

Mae perthynas agos a chynhaliol rhwng y disgyblion a’r staff. Mae athrawon yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau diddorol ar gyfer y disgyblion. Maent yn gosod amcanion penodol ar gyfer y dysgu, ac yn holi’r disgyblion yn fedrus. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn cydweithio’n naturiol, gan ddatblygu eu medrau mewn ardaloedd dysgu ysgogol. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n aeddfed wrth ddatrys problem o sut i greu llwybr gan ddefnyddio pibellau er mwyn i’r dŵr lifo ar draws yr iard. Mae eu medrau corfforol yn gadarn ac maent yn rheoli beiciau dwy olwyn yn hyderus wrth ddatblygu eu medrau cydbwyso yn yr ardaloedd allanol.

Mae’r staff yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd i ddisgyblion fwynhau a dysgu mewn gweithgareddau yn yr ardal leol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn dysgu mesur siapiau ar draeth Llansteffan gan ddefnyddio darnau o bren amrywiol, ac yn cyfri cerrig mân gyda’i gilydd. Mae’r disgyblion hynaf yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn darganfod arwynebedd a pherimedr lleoliadau fel y felodrôm a’r stadiwm athletau yn effeithiol wrth gynllunio lleoliad ar gyfer y gemau Olympaidd ar y tywod. Yn ogystal, mae disgyblion yn ymweld â chastell Llansteffan er mwyn creu cerddi acrostig dychmygus wrth ddathlu diwrnod Santes Dwynwen.

Mae arweinwyr yn darparu ystod addas o gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ac ymweld ag ysgolion cyfagos sy’n cysylltu â rhai o flaenoriaethau strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu hyfforddiant ynglŷn â sut i wella safonau llafaredd disgyblion. O ganlyniad, mae

mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando'n briodol ac yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o eirfa'r Gymraeg, er nad yw eu medrau llafar Cymraeg wedi datblygu'n llawn.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith ar gyfer eu cam datblygu. Maent yn talu sylw addas i atalnodi ac yn defnyddio strategaethau defnyddiol ar gyfer darllen geiriau heriol llai cyfarwydd. Mae eu medrau ysgrifennu yn datblygu'n addas.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn cymhwyso'u medrau digidol yn addas, er enghraifft wrth fewnbynnu cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy er mwyn ei yrru i leoliadau ar fap o'r pentref. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ac artistig yn effeithiol trwy amrywiol ddulliau wrth efelychu gwaith artistiaid cyfoes Cymreig, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu. Yn ogystal, nid yw cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol trwy wneud penderfyniadau ynglŷn â sut orau i gyflawni eu tasgau wedi eu datblygu'n ddigon pwrpasol.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar buddiol i gefnogi disgyblion i wybod beth maent yn ei gyflawni'n dda. Er hyn, ar adegau, nid yw'r adborth bob amser yn caniatáu i ddisgyblion ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol broses gadarn i olrhain a monitro cynnydd ac mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol  yn caffael gwybodaeth ddefnyddiol am ddisgyblion yn effeithiol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac maent yn ymateb yn amserol i unrhyw bryderon.

Mae staff yn darparu rhaglenni cefnogaeth pwrpasol i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae'r sesiynau yn cael eu haddasu'n gelfydd i ymateb i anghenion penodol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gadarn ac maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyflawniadau blaenorol.

Mae gan staff y ffederasiwn gysylltiadau buddiol â'r cymunedau lleol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol â rhieni. Er enghraifft, maent wedi dechrau caffael barn rhieni am agweddau pwysig o brofiadau dysgu eu plant. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi datblygu systemau er mwyn hybu cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Maent yn cynnal digwyddiadau lleol ar gyfer y ffederasiwn er mwyn codi arian tuag at y costau, er enghraifft wrth ddarparu gwersi nofio i ddisgyblion. Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth addas o brif gryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd i'w gwella, yn unol â blaenoriaethau'r cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a chyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau ysgol gyfan, er enghraifft wrth drefnu bore coffi i gasglu arian at elusennau cenedlaethol. Yn ogystal, mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyflwyno a thrafod eu gwaith gyda'r llywodraethwyr yn dda fel rhan o'r cyfarfodydd tymhorol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion leisio eu barn am ddarpariaeth ehangach yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd digon pwrpasol i ddatblygu eu rolau arwain.

Mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion. Darperir cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ieuengaf dreulio amser gyda'r disgyblion hynaf, ac mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at yr awyrgylch deuluol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cyd-chwarae'n llwyddiannus. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o werthoedd a threfniadau gwobrwyo. Gwnânt ddefnydd llawn o'r ardaloedd allanol a thiroedd yr ysgol, sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau lles a chymdeithasol.

Drwy amryw ddulliau gwella lles effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn cymryd eu pryderon o ddifri ac yn barod i wrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Maent yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn eu poeni. Maent yn cael eu parchu a'u trin yn deg. Ar y cyfan, mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi priodol at staff ac ymwelwyr.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**


© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.



Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024